Cylchlythr Tachwedd 2005

Cyfarchion i'n holl aelodau.

Digwyddiadau
Os nad ydych wedi archebu eisoes a gawn eich atgoffa o nifer o ddigwyddiadau pwysig a gynhelir gennym yn ystod gweddill 2005. Yn gyntaf, mae'n cynhadledd ar **23 Tachwedd** yng Nghaerdydd ar **Ariannu Prosiectau Sector Cyhoeddus ar Raddfa Fawr** yng Nghymru yn denu cynulleidfa o safon uchel i wrando ar arbenigwyr yn trafod p'run ai a sut y gall cynlluniau ariannu PFI eu gweithredu yng Nghymru i adnewyddu'r sector cyhoeddus. Eisoes yr ydym wedi sicrhau archebion i'r gynhadledd gan ystod eang o gyrff preifat a chyhoeddus, oddi mewn ac oddi allan i Gymru, gan gynnwys nifer o fanciau tramor a chartref wedi eu lleoli yn Llundain. Caiff y digwyddiad ei gadeirio gan Arolygwr Cyffredinol Cymru a bydd yn cynnwys cyflwyniadau gan uwch-swyddog *Partnerships UK* o Lundain ac uwch-swyddogion o feysydd cyllidol, cyfreithiol ac ymgynghorol yn ogystal a rhai gyda phrofiad o weithredu prosiectau PFI. **Ffoniwch 029 2066 6606 i archebu (£75 i aelodau, £90 i eraill) neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk**

Tydi hi ddim yn rhy hwyr i archebu eich lle ar gyfer y digwyddiad treftadaeth a gyhaliwn yn Neuadd Goffa, Trecelyn yng Ngwent ar 18 Tachwedd. Ers dwy flynedd bellach mae rhaglen Restoration y BBC wedi agor llygaid i fodolaeth a thranc adeiladau godidog – ond anghofiedig – yng Nghymru a gweddill Gwledydd Prydain. Er mai ond un enillydd oedd ymhob cyfres llwyddodd y cyhoeddusrwydd a ddaeth yn sgil y cyfresi i ysgogi ymgyrchoedd i sicrhau goroesiad ac adnewyddiad adeiliadau teilwng eraill. Bydd y gynhadledd, a gynhelir yn Neuadd Goffa Trecelyn – y Memo – yn arolygu'r cynlluniau diweddaraf ar gyfer yr adeilad ac ar gyfer adeilad enillydd Cymreig y llynedd, Ty Llanelli, yn ogystal a bwrw golwg mwy cyffredinol dros yr anawsterau a'r cyfleuon sydd ynghlwm â phrosiectau adnewyddu. Yn benodol, fe astudir sut y gall prosiectau o'r fath fod yn gynaliadwy a pharhau i fod yn adnodd cymunedol wedi i frwdfrydedd gwreiddiol cefnogwyr a noddwyr bylu. Bydd cyfle i gynadleddwyr ymweld â'r Memo a fu unwaith yn ganolbwynt bywyd cymunedol Trecelyn gyda sinema addurnedig, llawr dawnsio a llawer o gyfleusterau eraill. **Ffoniwch 029 2066 6606 i archebu (£30 gan gynnwys cinio) neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk**

Yn olaf, bydd y cyfarwyddwr ffilm Peter Greenaway yn sgwrsio gyda Peter Stead yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe ddydd Llun 14 Tachwedd. I'r rhai a fynychodd sgwrs Peter gyda Karl Jenkins yn gynharach eleni fe gofiwch pa mor llwyddiannus y profodd y

fformiwla. Mae Peter Greenaway yn un o gyfarwyddwyr mwyaf uchelgeisiol a dadleuol ei genhedlaeth. Ymhlith ei ffilmiau mae *The Draughtsman's Contract* a *The Cook, The Thief, His Wife, Her Lover*. Mae'r digwyddiad, sy'n cychwyn am 7.30pm, yn cynnwys swper ac yn costio £20 i aelodau a £25 i eraill. **Ffoniwch 029 2066 6606 i archebu neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk**

Rhaglen 2006
Yr ydym wrthi'n trefnu rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2006 ac eisoes mae gennym gynlluniau ar gyfer cynhadledd i edrych ar yr oblygiadau yng ngogledd Cymru o ymgorfforiad Bwrdd Datlbygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Hefyd mae gennym ddigwyddiadau gydag amryw o siaradwyr diddorol mewn mannau led-led Cymru yn yr arfaeth. Y mae diddordeb gennym glywed am unrhyw syniadau gan ein haelodau ar gyfer siaradwyr neu gynhadleddau, yng Nghaerdydd a gweddill Cymru. Os oes rhywun yr hoffech ei glywed yn siarad neu bwnc y teimlwch y dyliem ei drafod rhowch wybod i ni.

Agenda
Bydd rhifyn nesaf o Agenda yn eich cyrraedd yn fuan gyda'r amrywiaeth arferol o erthyglau difyr.

Prif Weinidog y Cynulliad, **Rhodri Morgan** yn disgrifio sut mae agenda *Gwneud y Cysylltiadau* Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei weithredu

James Foreman-Peck a **Laurian Lungu** o Ysgol Fusnes Caerdydd yn trafod y bendithion allai ddod petai gan Gymru y dewis o ostwng treth corfforaethol.

Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn astudio'r rhwystrau yn y ffordd o gydwithrediad economaidd rhwng Caerdydd a'r cymoedd.

Sophie Gilliat-Ray yn disgrifio sut y bydd canolfan astudio newwydd yng Nghaerdydd yn hybu gwell dealltwriaeth o'r gymuned Fwslemaidd.

Bydd ynddo hefyd erthyglau ar y cyswllt trên newydd rhwng Blaenau Gwent a Chaerdydd a Chasnewydd ac ar Y Wenwyseg, hen dafodiaith de ddwyrain Cymru, ac ymwleiad a'r 74ain Cymanfa Ganu Genedlaethol Gymreig Gogledd America, a llawer mwy.

Cyhoeddiadau
Mae'n cyhoeddiad diweddaraf **Cherished Heartland, the Future of Upland Wales**, ar gael i aelodau ac mae'n cynnwys dadansoddiad difyr o'r arolygon ar gyfer rhai o ardaloedd mwy

anghysbell Cymru. Lawnsiwyd y cyhoeddiad mewn cyfarfod ddiwedd Hydref yn Theatr Brycheinog, Aberhonddu o flaen cynulleidfa o 200.

Gall y dyfodol fod yn llewyrchus i ffermio yn ucheldir Cymru, medd yr awduron Peter Midmore a Richard Moore-Colyer, os y mabwysiedir y polisiau addas.

Mewn rhagwelediad "Dyfodol Perffaith" disgrifir amgylchedd gymdeithasol a diwylliannol naturiol sydd mewn cyflwr iachus gyda cymunedau hunan-gynhaliol wedi ei seilio ar strwythr poblogaeth presennol. Er y bydd newidiadau mewn ffordd o fyw pobl wedi digwydd bydd gwerthoedd traddodiadol, diwylliant a hwsmonaeth yn parhau'n ddilys. Bydd bio-amrywiaeth yn ffynnu a bydd y tir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cynhyrchu eang gyda graddfeydd stoc addas a chydbwysedd rhwng gwartheg, defaid, ceirw a cheffylau er mwyn difa rhedyn a phroblemau eraill.

Dadl yr awduron yw bod angen cymeryd 'dewisiadau anodd' os am sicrhau dyfodol i'r ucheldiroedd a'u cyfraniad gwerthfawr i safon byw cenedlaethol Cymru. Mae'r bryniau a'r ucheldiroedd ar bwynt tyngedfennol. Mae effaith y Taliad Sengl i Ffermwyr yn ansicr ac mae yna lawer mwy o fygythiadau gwleidyddol, economaidd a byd-eang. Mae'r cyhoeddiad ar gael o swyddfeydd yr IWA am £5 i aelodau (£10 i eraill) + post a chludiant. **Ffoniwch 029 2066 6606 am gopi neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk**